Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# AFAN CUDD

## PECYN ADNODDAU I YSGOLION YN TRAFOD HANES CANOLOESOL ANGHOFIEDIG ARDAL AFAN







Byddwch yn falch
O'r hyn yr ydym
Oherwydd ein bod yn gorffwys
Ar
Gyflawniadau
Y
Rhai a aeth
O'n blaen
Ni.

*Paula Denby 2024*

**CALON AFAN**
**Cwmni Buddiant Cymunedol Calon Afan Community Interest Company**
2 Brookway Close, Port Talbot, SA12 8EL   Rhif y Cwmni/Company number: **15284549**
**www.calonafan.org**

# RHAGAIR

O bryd i'w gilydd mae'r mwyafrif o athrawon yn teimlo eu bod am gyflwyno pwnc i'w disgyblion ac nid oes ganddynt yr amser neu'r adnoddau i'w drafod mewn modd effeithiol. Ein gobaith yw y byddwch yn credu bod yr adnodd dysgu hwn yn ddefnyddiol. Fe allai fod yn addas ar gyfer holl ysgolion ardal Port Talbor, boed ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg.

Mae'r Pecyn Adnoddau yma'n cael ei gynnig gan Galon Afan, cwmni a ffurfiwyd i hyrwyddo hanes Port Talbot a Chwm Afan, oherwydd ein bod wedi darganfod storïau hudolus am fywyd yn yr oesoedd canol yn ardal Port Talbot a Chwm Afan, a bydden ni wrth ein boddau pe byddai plant yn deall mwy am hanes cynnar yr ardal y maen nhw'n byw ynddi, sef eu 'bro' neu 'filltir sgwâr'. Mae'r pecyn wedi'i ysgrifennu gan bedwar athro, ac 'rydym o'r farn bod yr hanes hwn yn gallu ennyn diddordeb o gwmpas yr elfen o Gynefin yn y Cwricwlwm i Gymru, ac yn annog adeiladu sgiliau.

Mae hanes colledig Tywysogion Afan, ac yna Arglwyddi Afan, a oedd yn dal y tir o'r môr i Hirwaun, a rhwng afonydd Afan a Nedd, o 1094 tan fod eu llinach yn darfod yn y 14$^{eg}$ ganrif, yn un eithaf rhyfedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, yn gyntaf oll drwy frwydro a chynghreirio gyda theuloedd Cymreig eraill, ac yna drwy ddiplomyddiaeth a chydbriodi, roeddent wedi llwyddo cadw eu tiroedd, sef cyflawniad unigryw yn ystod y cyfnod hwnnw a welodd y mewnlifiad Normanaidd cynnar a gormes Eingl-Normanaidd.

Mae'r pecyn yn cynnwys peth deunydd crai gwreiddiol, gyda chyfeiriadau URL at gyfres o erthyglau a gyhoeddir ar wefan Calon Afan, a sy'n hygyrch iawn ar gyfer ymchwil gan athrawon; rhai chwedlau, storïau ac adnoddau i athrawon, a'r cyfan yn Saesneg a Chymraeg. Mae'n awgrymu ffyrdd o gyrchu hanes lleol anhygoel Port Talbot a Chwm Afan, ac yn cynnwys smörgåsbord o syniadau ac awgrymiadau o strategaethau ynghylch y ffordd y gall y gwaith o gwmpas 'cynefin' gael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth yn Saesneg a/neu yn Gymraeg.

Mae'r pecyn wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio yn bennaf gyda phlant Cyfnod Allweddol 2 yn bennaf; serch hynny, mae'n bosibl addasu neu deilwra'r rhan fwyaf o'r syniadau ar gyfer plant hŷn neu ifancach yn ôl oed a gallu'r plant gan yr arbenigwyr sy'n eu hadnabod; yr athrawon.

Er ei fod yn ymdebygu tipyn i gist trysor, mae'r pecyn mewn tair adran: gweler y Cynnwys isod am restr gyflawn o'r hyn y mae'n cynnwys. Gobeithiwn y bydd yr hyn y byddwch yn ei ddarganfod yn ddefnyddiol, ac yn eich ysbrydoli. Ond, pwy a wyr beth arall sydd i'w ddarganfod!

Os byddwch yn dod ar draws unrhywbeth arall, rhowch wybod i ni!
Ebostiwch ni ar: contact@calonafan.org

# CYNNWYS

## ADRAN 1: NODIADAU I ATHRAWON

**3 llyfryn A5 sy'n cynnwys awgrymiadau am ddulliau creadigol o ddadansoddi'r deunydd.**

1. Brwydrau Beirdd a Chymdogion Gwyllt: Paula Denby
2. Gwarchod ein Mynydd: Ymholi Dramatig, Dull Ymgysylltu Cynhwysol: Iona Towler-Evans
3. Cofion Cymry ein Cynefin: Dull Ymgysylltu yn Defnyddio'r Gymraeg: Margaret Jones ac Eirwen Hopkins

## ADRAN 2: DEUNYDD HANESYDDOL

**Cynhwysir rhannau 2 a 3 mewn llyfr A4 er hwyluso llungopio.**

1. <u>Gwybodaeth i Athrawon: Tywysogion Afan:</u>
   Erthyglau am y cyfnod canol oesol rhwng 1066 a 1450 yn gyffredinol, ac ym Mhort Talbot a'r Dyffryn Afan, wedi'u hysgrifennu gan yr hanesydd lleol Tim Rees, a Sally Roberts Jones, ac Andrew Dulley: yn trafod yr hyn a wyddys am linach annialadwy Tywysogion Afan, y lleoliadau a'r adeiladau sy'n gysylltiedig â nhw.

2. <u>Gwybodaeth i blant ynghylch Bywyd yr Oesoedd Canol:</u>

- Arfwisg ac Arfau
- Brwydrau a Rhyfel
- Plant yng Nghyrmu Canol Oesol
- Dillad a Ffasiwn
- Bwyd a Gwledda
- Coginio a 2 Ryseit o'r Canol Oesoedd
- Gwledda yng Nghymru
- Salwch, Iechyd a Meddyginiaeth
  - Meddygon o'r Canol Oesoedd yng Nghymru: Meddygon Myddfai
  - Y Dyn Hysbys
- Ceffylau yn y Canol Oesoedd
- Pobl
  - Gerallt Gymro
  - Matthew Paris
  - Tywysogion Afan
  - Ieuan Gethin
- Swyddi
  - Gofaint
  - Gwneuthurwyr Canhwyllau

- Seiri Saethau a Gwneuthurwyr Bwâu
- Saeri Maen a Cherfwyr Carreg
- Ffermio yn y Canol Oesoedd
- Melinydd
- Ysgrifennydd
- Saer Olwynion

# ADRAN 3: ADNODDAU AR GYFER YR YSTAFELL DDOSBARTH

**Adnoddau Ysgrifenedig:**

1. 'Y Frwydr': cerdd gan Paula Denby yn Saesneg (hefyd yn Fideo Rhan 2)
2. 'The Strange Story of the Christmas Horse': stori gan Sally Roberts Jones yn Saesneg
3. 'Ceffyl y Fari Lwyd': stori gan Menna Moras yn Gymraeg
4. Tair cân werin Gymreig gyda'r geiriau perthnasol yn Gymraeg a chyfieithiadau Saesneg.
5. Dwy hwiangerdd sy'n gysylltiedig â cheffylau yn Gymraeg a chyfieithiadau Saesneg.
6. Nodiadau ynghylch rhai enwau llefydd lleol Cymreig a'u hystyr
7. Y Fari Lwyd a'r Fari Lwyd Cwmafan gan Tim Rees
8. Tair stori am briodas yn y canol oesoedd ym Mro Afan

**Adnoddau Gweladwy:**

9. Esiampl o sgrôl ar gyfer y dull Ymholi Dramatig
10. Esiampl o lythyr comisiwn ar gyfer y dull Ymholi Dramatig
11. Esiamplau o blaciau ar gyfer y dull Ymholi Dramatig

**Ffon USB:**
Fideos:

1. 'Safbwyntiau' mewn 4 rhan – yn cyflwyno gwahanol berspectifau ar yr hyn a ddigwyddodd ar Fynydd Dinas yn ystod yr oesoedd canol, o'r gorffennol a'r presennol. I'w defnyddio gyda'r dull Ymholi Dramatig ac eraill.
2. 'The Strange Story of the Christmas Horse': stori yn Saesneg gan Sally Roberts Jones, wedi'i darllen gan Owen Staton
3. 'Ceffyl y Fari Lwyd': stori yn Gymraeg gan Menna Moras, wedi'i darllen gan Owen Staton

Audio:

1. 'Y Fari Lwyd a'r Fari Lwyd Cwmafan': gan Tim Rees, wedi'i darllen gan Non Broad

**Bag o adnoddau crefft:**
Er eich defnydd yng nghyswllt 'Brwydrau Beirdd a Chymdogion Gwyllt'.